

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 12 TACHWEDD 2019

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen , E.Lovgreen,
B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage, I.C.Thomas, R.Thomas,
C.Williams

Cyflwyniad gan Geraint Hughes, Cynnal Tiroedd, Cyngor Gwynedd

Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar y 24ain o Fedi, cafwyd cyflwyniad gan Geraint Hughes, Cynnal Tiroedd, Cyngor Gwynedd

Ymatebodd i gwestiynau gan Gyngorwyr o ran torri gwair, strimio ym Mynwent Llanbeblig a blodau gwyllt.

Nodwyd bod angen i'r Cyngor Tref, Cyngor Gwynedd a HWB drafod er mwyn creu cynllun ar gyfer glanhau Caernarfon ar gyfer yr haf, a thrafod sut y gellir canfod cyllideb ar gyfer gwneud hynny.

Penderfynwyd:

- (1) Bod Geraint yn pasio'r cwynion o ran nad oedd Cyngor Gwynedd yn chwynnu ar yr adegau iawn o'r flwyddyn i Steffan Jones, Pennaeth yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol.**
- (2) Bod Geraint yn anfon copi o'r cynllun o ran sut mae gwair yn cael ei dorri ym Mynwent Llanbeblig ymlaen i'r Cyngor Tref.**

1. Ymddiheuriadau

E.R.Hughes, K.Jones, M.Sarnacki

2. Cyhoeddiadau'r Maer

12.10.2019	Derbyn 'Rotarians' i'w cynhadledd yng Ngwesty'r Celtic
18.10.2019	Bore Coffi Sefydliad y Galon
27.10.2019	Derbyn 'Royal British Legion Riders' wrth y Gofeb
28.10.2019	Agor siop British Legion
2.11.2019	Noson Tân Gwyllt, Beaumaris - Y Dirprwy Faer a'r

Consort wedi mynychu ar ran y Maer

5.11.2019

Noson Tân Gwyllt, Caernarfon

Salwch

Cyfeiriodd y Cadeirydd at salwch diweddar Ms Margaret Lloyd a'r Cynghorydd Maria Sarnacki, a dymunodd iddynt adferiad llwyr a buan.

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 13 – Enwebiadau ar Gyrrff Llywodraethol Ysgolion – Ysgol Yr Hendre – y Cynghorydd W.R.Owen

Eitem 13 – Enwebiadau ar Gyrrff Llywodraethol Ysgolion – Ysgol Yr Hendre – y Cynghorydd Jason Parry

Eitem 19 – Rhybudd o Gynnig (Gŵyl Fwyd Caernarfon) – y Cynghorydd Ann Hopcyn

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc).

(a) Brysgyllwr

Nododd y Clerc fod Alwyn Jones, y Brysgyllwr wedi ymddiswyddo ers rhai misoedd ac roedd eisiau awdurdod y Cyngor i roi hysbyseb allan am Frysgyllwr newydd.

Penderfynwyd (yn unfrydol) awdurdodi'r Clerc i roi hysbyseb allan yn gofyn am Frysgyllwr newydd.

(b) Calendr Pwyllgorau 2020

Dosbarthodd y Clerc y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2020, a gofynnodd i'r aelodau gysylltu efo fo os oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

Penderfynwyd derbyn y calendr oni bai fod sylwadau pellach yn dod i law.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor – 1 Hydref 2019

Yn codi –

(a) Eitem 4 – Eitemau Brys – (a) Fferyllfa ar y Maes

Nododd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at yr holl rai a nodwyd yn y cofnodion, a'i fod wedi derbyn ymateb gan Hafan lechyd yn unig.

Darllenodd y Clerc ymateb Hafan Iechyd i'r aelodau.

(b) Eitem 5 – Cofnodion – i. Cyngor – 3 Medi 2019

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost ynglŷn a Chapel Ebenezer yn datgan y bydd y garreg goffa yn cael lle teilwng yn y dre. Erbyn hyn mae'r capel wedi cau ac mae'r adeilad dan law Swyddog Eiddo'r Synod. Mae'n debygol y bydd yn rhaid cael caniatâd Cadw i symud y garreg. Byddent yn cysylltu yn ôl efo'r Cyngor Tref unwaith y daw fwy o wybodaeth i law.

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Pwyllgor Personél, 22 Hydref 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

iii. Panel Cyllid a Staff, 22 Hydref 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol), yn amodol ar gyfrannu £200 yn hytrach na £100 i Deulu Cadnant.

iv. Pwyllgor Adloniant 5 Tachwedd 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

Er gwybodaeth, nododd y Clerc ei fod wedi paratoi taenlen ar Excel i gadw trac ar benderfyniadau pwyllgor a bod croeso i unrhyw un o'r aelodau ddod i'w weld.

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Meysydd Chwarae

Cyflwynwyd llythyr gan Amanda Murray, Rheolwr Prosiectau, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Roedd y llythyr yn nodi nad oedd gan Gyngor Gwynedd unrhyw opsiwn bellach ond gweithredu cyfres o arbedion effeithlonrwydd pellach i wasanaethau. Mewn ymgais i osgoi unrhyw doriadau cysylltwyd gyda cynghorau tref a chymuned er mwyn ceisio adnabod os oes ganddynt ddiddordeb ac yn fodlon ystyried cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y meysydd chwarae yn eu tref / cymuned. Gofynnwyd am ymateb os bosib cyn y 31ain o Rhagfyr.

Nodwyd nad oedd "Tŷ Gwyn" yn ward Menai.

6.45 p.m. – Y Cyngorydd W.L.Davies yn gadael y cyfarfod.

Penderfynwyd trafod y mater yn y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar y 26ain o Dachwedd (unfrydol).

9. Adroddiad o Gynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Unllais Cymru, 5ed o Hydref, 2019

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar yr uchod. Nododd fod y diwrnod wedi cynnwys cyflwyniadau gan y canlynol:

- Hannah Blythyn AC, Y dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Elinor Shepley, y Sefydliad Materion Cymraeg
- Lyn Cadwallader gyda Bronwen Raine a'r Cyngorydd Clive Davies

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

10. Sicrhau Bioamrywiaeth Gwell

Cyflwynwyd llythyr gan Neil Hemington, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth fel rhan o'r broses o ystyried cynigion datblygu.

Nodwyd yn y llythyr:

- (1) Bod Polisi Cynllunio Cymru 10 yn pennu bod "yn rhaid i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiadau achosi unrhyw gollu cynefinoedd neu boblogaethau sylweddol o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol ac mae'n rhaid sicrhau manteision net ar gyfer bioamrywiaeth"
- (2) Mai pwrpas y llythyr yw egluro, yn dilyn y ddeddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, ble na fydd gwella bioamrywiaeth yn cael ei gynnig fel rhan o gais, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwyslais sylweddol ar y ffaith nad yw'n bresennol, ac os nad oes ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, bydd angen gwrthod y caniatâd.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

11. Aelodaeth Anrhydeddus o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Gogledd Cymru

Cyflwyno llythyr yn gofyn am enwebiad ar gyfer unigolyn sydd wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i'r Cylch ac sydd, fel rheol, yn gadael gwasanaeth y Cylch.

Penderfynwyd enwebu'r Cyngorydd I.C.Thomas (unfrydol).

12. Ymgynghoriadau Cynllunio

Cyflwynwyd gwybodaeth am Ymgynghoriadau Cynllunio sydd ar y gweill:

- Diwygiadau i Adran Tai Polisi Cynllunio Cymru a chyngor a chanllawiau cysylltiedig (dyddiad cau 20 Tachwedd 2019).
- Diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch defnyddio pwerau prynu gorfodol a chanllawiau wedi'u diweddarau ar y weithdrefn prynu gorfodol yng Nghymru (dyddiad cau 17 Ionawr 2020).
- Canllawiau cynllunio diwygiedig mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol (dyddiad cau 17 Ionawr 2020).

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon eu sylwadau yn uniongyrchol at y Clerc fel ei fod yn gallu llunio ymateb(ion) ar ran y Cyngor (unfrydol).

13. Enwebiadau ar Gyrrff Llywodraethol Ysgolion

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Yr Hendre
- Ysgol Maesincla

Penderfynwyd enwebu'r aelodau canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar yr ysgolion a nodir:

- Ysgol Yr Hendre – Y Cynghorydd R.Thomas
- Ysgol Maesincla – Y Cynghorydd D.L.Jones

14. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Clerc ar gyflwr yr Institiwt, o ran cyflwr yr Adeilad a'r cysylltiad gyda Galwch Acw.

(a) Cyflwr Adeilad yr Institiwt

Nodwyd fod cyflwr tu allan yr adeilad wedi dirywio o ran edrychiad ac o ran yr adeiladwaith, a allasai fod yn broblem yn y dyfodol o ran iechyd a diogelwch. Enghraifft o hyn oedd y gwaith concrid yn dod oddi wrth ei gilydd ar du blaen yr adeilad.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i gysylltu gyda cwmni arbenigol i edrych ar gyflwr yr adeilad, er enghraifft y gwaith concrit oedd yn dod yn rhydd (unfrydol).

(b) Galwch Acw

Nododd y Clerc fod cyfarfodydd rheolaidd bellach yn cymryd lle rhyngddo â thenantiaid 8 – 10 Stryd Bangor (Galwch Acw). Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Y gwaith plymio.
- Diogelwch tân.
- Shutter trydanol.
- Gwaith datblygu'r toiled.
- Asesiadau asbestos pellach.
- Ffurfioli systemau / gweithdrefnau i'r dyfodol.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol) .

6.50 p.m. – Y Cyngorydd I.C.Thomas yn gadael y cyfarfod.

15.Sgrîn Fawr – “live feed” o'r llawr sglefrio iâ

Cyflwynwyd cais gan Gavin Owen (HWB) i gael “live feed” o'r llawr sglefrio iâ i'r Sgrîn Fawr fydd ar y Maes rhwng y 19eg a'r 21ain o Ragfyr.

Nododd y Clerc ei fod wedi holi Cwmni Da a byddai gwireddu hyn yn achosi problemau oedd yn uchelgeisiol i'w datrys.

Byddai hefyd materion ynghlwm â GDPR.

Penderfynwyd gwrthod y cais gan y byddai gwireddu hyn yn achosi problemau oedd yn uchelgeisiol iawn i'w datrys (unfrydol).

16. Cwrs CSAS Heddlu Gogledd Cymru

Cyflwynwyd e-bost gan Hugh Edwin Jones, Rheolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd o ran yr uchod.

Roedd yr e-bost yn datgan:

- (1) Bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cysylltu gydag ef o ran adnewyddu'r Awdurdod CSAS, sydd angen ei wneud yn flynyddol.
- (2) Mai'r gost am eleni oedd £100 ond bod angen lleiafswm o 12 o bob lar y cwrs.
- (3) Bod yr Adran Briffyrdd yn cydnabod y cwrs, fel ein bod yn gallu defnyddio pobl cymwysiedig ein hunain ar gyfer digwyddiadau yn hytrach na thalu am gwmniau rheoli traffig allanol. Mae hyn yn berthnasol i rwystro traffig, gyda mwy o awdurdod na “stop & go”.
- (4) Byddai yn rhaid cael cynllun rheoli traffig yn ei le wedi cael ei dderbyn gan y Cyngor ond tydi'r cwrs ddim yn cynnig cymhwyster yn hyn.

Penderfynwyd:

- (1) **Bod y Cyngor yn mynegi diddordeb mewn anfon cynrychiolwyr i fynychu (a byddai hyn ym fanteisiol ar gyfer yr holl ddigwyddiadau sy'n cymryd lle yng Nghaernarfon).**
- (2) **Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn mynegi siomedigaeth y Cyngor Tref fod yr e-bost dderbyniwyd gan Rheolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd yn uniaith Saesneg.**

17. National Energy Campaign

Cyflwyno gohebiaeth gan yr uchod.

Penderfynwyd nodi cynnwys y llythyr (unfrydol).

18. Cath Wyllt yn yr Institiwt

Cyflwynwyd:

- (a) Llythyr gan Helen Gwerfyl, Gwasanaeth Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau. Roedd y llythyr yn holi os fuasai gan y Cyngor Tref ddiddordeb i roi'r gath wyllt ar gyfer casgliad sŵoleg Prifysgol Bangor, sydd wedi ei leoli yn yr Amgueddfa Hanes Natur, Adeilad Brambell.
- (b) E-bost gan Dr Gareth Wyn Griffith, Darllenydd Mycoleg, Prifysgol Aberystwyth. Roedd yr e-bost yn holi ynglŷn â'r posibilrwydd o dynnu ychydig o flew o fol y gath ar gyfer samplu DNA, ynghyd â threfniadau symud y gath i Fangor.

Penderfynwyd caniatáu i'r gath wyllt fynd ar fenthyciad tymor hir i Adeilad Brambell, a gofyn am adroddiad cryno ar ganlyniad o'r samplu DNA (unfrydol).

19. Rhybudd o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cyngorydd Eleri Lovgreen:

“Ar ran Gwyl Fwyd Caernarfon, gofynnaf i Gyngor Tre Caernarfon ehangu eu nawdd hael i'r digwyddiad i gynnwys printio posteri a thocynnau ar gyfer yr amrywiol ddigwyddiadau codi pres y mae'r Wyl yn eu cynnal ar hyd y flwyddyn. Gan ein bod yn gwblw ddibynnol ar godi pres a chasglu nawdd er mwyn i'r digwyddiad poblogaidd hwn gael ei gynnal, mae pob cefnogaeth yn help mawr.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu argraffu ryw 50 o bosteri ar gyfer chwech neu saith o ddigwyddiadau, a tua 100 o docynnau ar gyfer pob un o'r digwyddiadau hynny.

Gan obeithio yr edrychwch yn garedig ar ein cais.”

Penderfynwyd cytuno ar yr uchod, ond bod y costau cysylltiedig yn dod allan o gyllideb yr Ŵyl Fwyd (unfrydol).

20. ICO (Information Commissioner's Office)

Gofynnodd y Clerc am ganiatâd y Cyngor i ail-ymaelodi o'r 9fed o Ionawr 2020.

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i gofrestru'r Cyngor Tref gyda'r ICO pan mae'r cofrestrriad presennol yn dod i ben ar y 9fed o Ionawr 2020 (unfrydol).

21. Trefi Caerog

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 18fed o Fedi.

Penderfynwyd derbyn y cofnodion, er gwybodaeth (unfrydol).

22. Safle Treftadaeth y Byd

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriâu'r Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd a gynhaliwyd ar y 20fed o Fehefin.

Penderfynwyd derbyn y cofnodion, er gwybodaeth (unfrydol).

23. CAB

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, wybodaeth am y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

24. Newid a gynigir i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

Cyflwynwyd, gohebiaeth ynglŷn â'r uchod.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth (unfrydol).

25. Cwestiynau

(1) Defibrillator

Gofynnodd y Cynghorydd D.L.Jones os oedd yn bosib cael rhestr o'r Defibrillators yng Nghaernarfon, ac y byddai'n syniad cynnig hyfforddiant yn eu defnydd.

Nodwyd ymhellach y byddai'n dda cael sticer yn nodi eu lleoliad yn y dref, ac y dylai unrhyw Defibrillator newydd fod yr un peth ag sydd yno eisoes.

(2) Hustings

Gofynnodd y Cynghorydd Cai Larsen os fyddai'n bosib mewn egwyddor i'r Cyngor drefnu Hustings ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd Dyddiad